

## Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn dwyn y teitl Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd: Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

---

Hoffwn i a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn seiliedig ar eu profiad a'u harbenigedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn 'Ffyniant i Bawb' ei bod yn annerbyniol bod pobl yn cael eu gorfodi i gysgu allan mewn cymdeithas lewyrchus. Fel y nodir yn ein strategaeth ar gyfer rhoi terfyn ar ddirifedd, cysgu ar y stryd yw'r math mwyaf difrifol o ddirifedd ac rydym yn cydnabod bod gan y rhai sy'n byw ar y stryd anghenion cymhleth yn aml, a bod angen ymateb cydgysylltiedig gan amrywiaeth o wasanaethau i'w cefnogi.

Er bod y Pwyllgor hwn yn canolbwyntio ar gysgu ar y stryd, mae'n bwysig cydnabod bod hon yn un agwedd ar fater ehangach sy'n ymwneud â digartrefedd, er mai dyma'r ffurf fwyaf difrifol a gweladwy. Er mwyn sicrhau dull gweithredu strategol cyfannol ar gyfer y system gyfan, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gefnu ar rannu digartrefedd yn wahanol ffurfiau, ac, yn hytrach, sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein polisi a'n hadnoddau ar atal a mynd i'r afael â digartrefedd o bob math.

Cydnabyddwn fod digartrefedd yn fater sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac felly rydym yn gweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r sectorau cyhoeddus i ymdrin â'r ffactorau sylfaenol sy'n ei achosi.

## Argymhelliad 1

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar weithredu'r camau perthnasol yn y Cynllun Gweithredu Cysgu Allan; a'r graddau y mae'r Fframwaith Gwasanaeth i Drin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Phroblemau oherwydd Camddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd wedi'i weithredu ledled Cymru.**

### Ymateb: Derbyn

Mae'r camau gweithredu perthnasol yn y Cynllun Gweithredu ar Gysgu Allan yn ymwneud â gwella mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd, a datblygu protocolau cydweithio ar gyfer helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud yn drawslywodraethol ac mae wedi arwain at waith parhaus i gryfhau'r gweithrediad y Fframwaith Cymorth a Thriniaeth ar gyfer pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau llety; camau gweithredu ar y cyd yn y Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau 2019-2022 a Chynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022; a chyllid penodol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.

Mae'r gwaith hwn yn parhau gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd triniaeth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd ac rydym wedi sefydlu ymchwiliad at wraidd Camddefnyddio Sylweddau / Iechyd Meddwl i ystyried cynnydd o ran datblygu gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, a'r heriau sy'n parhau. Mae'r grŵp yn cynnwys amrywiaeth o arbenigwyr gan gynnwys arbenigwyr polisi, comisiynwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys Iechyd a Thai, i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae darparu cymorth priodol, integredig i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu nodi'n glir fel blaenoriaeth yn y Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau 2019–2022 a'r Cynllun Cyflawni Iechyd Meddwl 2019–2022. Mae'r cynlluniau cyflawni ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cynnwys yr ymrwymiad i gynnal dadansoddiad manwl o'r llwybrau ar gyfer unigolyn sydd â phroblem sy'n cyd-ddigwydd. Bydd hyn yn golygu edrych ar y rhwystrau a'r arferion da ar waith yn y maes hwn (gyda gwaith gan Lywodraeth Cymru i edrych yn ddwfn ar iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd) yn arbennig i ddatrys problemau a allai fod yn atal gweithredu'r fframwaith gwasanaeth yn llawn ar gyfer trin pobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Yn ogystal, mae ymrwymadau yn y ddau gynllun cyflawni i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir i gefnogi achosion cyd-ddigwydd yn cael eu halinio a'u bod yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a digartrefedd; ac yn sicrhau

bod llai o rwystrau i waith ar y cyd rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Byddwn yn monitro'r broses o weithredu hyn yn lleol drwy'r Byrddau Cynllunio Ardal a'r Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol.

Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu £1.3 miliwn i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth sy'n ddigartref neu sydd angen tŷ. Mae'r cyllid yn gweithio'n agos gyda phrosiectau Tai yn Gyntaf a bydd yn helpu i wella mynediad ac integreiddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

## **Argymhelliad 2.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi arfer gorau i wella rhannu ar draws y sector, ac yn sicrhau nad yw'r broses gomisiynu yn rhwystr i hyn.**

### **Ymateb: Derbyn**

Fel yr amlinellwyd mewn sesiynau tystiolaeth blaenorol, mae'r broses o ddatblygu'r Grant Cymorth Tai yn gyfle i wella prosesau comisiynu drwy gysoni'r grantiau Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd yn well. Mae canllawiau newydd i gefnogi'r Grant Cymorth Tai, yr ymgynghorwyd arno y llynedd, yn ceisio cryfhau dulliau cydweithredol ac amlasiantaethol ac annog comisiynu gwasanaethau ar y cyd.

Er bod rhywfaint o ddatblygu a gwella organig yn bosibl drwy rannu dysgu rhwng darparwyr gwasanaethau, y comisiynydd eu hun, sef yr awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am ddiffinio a rhannu arferion da. Eu cyfrifoldeb nhw yw dadansoddi'r hyn sy'n gweithio fel rhan o'u rôl strategol, cydnabod arfer da, a phrofi arferion arloesol. Dylent ddysgu gan ddarparwyr fel rhan o'r rôl gomisiynu strategol hon ac mae Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid neu ffurfio mecanweithiau eraill i gynnal y sgwrs hon.

Rôl Llywodraeth Cymru yw adeiladu ar y rhannu lleol hwn drwy ymchwilio, gwerthuso a hwyluso sgysiaid ledled Cymru drwy fecanweithiau megis Bwrdd Cyngori'r Gweinidog ar Gymorth Tai neu'r Rhwydwaith Cymorth Tai.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod eu gwasanaethau wedi'u halinio'n dda â gwasanaethau digartrefedd, gan gynnwys Tai yn Gyntaf, ac mae'r Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau yn cynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer hyn. Roedd y cyllid anghenion cymhleth

diweddar a ddarparwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn annog ymhellach ddull cydweithredol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion gael eu datblygu a'u cyflwyno mewn cydweithrediad â gwasanaethau tai.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff costau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

### **Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod:**

**Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i gefnogi mentrau lleihau niwed. Dylai hyn gynnwys:**

- **egluro a yw'r setliad datganoli yn galluogi sefydlu ystafelloedd chwistrellu diogel yng Nghymru; ac os nad yw, a fydd yn ceisio pwerau o'r fath; byddem yn disgwyl i unrhyw benderfyniad a wneir gael ei lywio gan y sail dystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd yr ymyriad hwn; a**
- **gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrrff heb eu datganoli fel yr heddlu i leihau'r risg y caiff landlordiaid eu herlyn pan fydd preswylwyr neu denantiaid yn defnyddio cyffuriau ar eu heiddo, fel rhan o raglan lleihau niwed.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein '*Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau 2019-22*' wedi'i wreiddio mewn dull lleihau niwed sy'n cydnabod bod caethiwed i sylweddau yn fater iechyd a gofal yn hytrach nag yn fater sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn unig.

Maes sy'n peri pryder cynyddol i bawb sy'n gweithio i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru yw'r data diweddaraf sy'n dangos cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ar draws y boblogaeth. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i werthuso'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd a chefnogi mentrau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys cymorth i bobl ddigartref.

Ym mis Rhagfyr 2017, cwblhaodd yr hen Banel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau adroddiad ar Ganolfannau Uwch ar gyfer Lleihau Niwed (*Enhanced Harm Reduction Centres, EHRCs*), sy'n enw arall ar ystafelloedd chwistrellu diogel. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth Ewropeaidd a Rhyngwladol o effeithiolrwydd Canolfannau Uwch ar gyfer Lleihau Niwed a hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth

gefndirol am arferion defnyddio cyffuriau cyfredol yng Nghymru. Daeth yr adroddiad i ben gydag un argymhelliad a oedd yn nodi na allai'r Panel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau, ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, argymhell bod Canolfannau Uwch ar gyfer Lleihau Niwed yn cael eu gweithredu yng Nghymru. Nododd yr adroddiad y byddai angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn er mwyn pennu dichonoldeb Canolfannau Uwch ar gyfer Lleihau Niwed yng Nghymru.

Mae pryderon sylweddol hefyd ynglŷn â chydawnsedd Canolfannau Uwch ar gyfer Lleihau Niwed â'r gyfraith droseddol bresennol. Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru yw na allai gefnogi Canolfannau Uwch ar gyfer Lleihau Niwed ar hyn o bryd gan nad yw'r gyfraith ar gamddefnyddio cyffuriau wedi'i datganoli ac felly'n fater i Lywodraeth y DU.

O ran prosiectau Tai yn Gyntaf, fel rhan o'u rôl yn gweinyddu'r rhwydwaith Tai yn Gyntaf, mae Cymorth Cymru wedi bod yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol, Heddluoedd Cymru a chomisiynwyr i archwilio'r posibilrwydd o gyhoeddi 'llythyrau tawelu meddwl' i Landlordiaid. Mae'r llythyrau hyn, sydd wedi'u datblygu fel rhan o ymagwedd yr Alban tuag at Dai yn Gyntaf, yn rhoi sicrwydd i landlordiaid mewn perthynas ag erlyniad posibl. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

**Goblygiadau ariannol – Dim.**

#### **Argymhelliad 4.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rôl arweiniol wrth weithio gyda sefydliadau ar draws sectorau i fwrw ymlaen â'r newid diwylliannol angenrheidiol i ddod â sefydliadau ynghyd i ddarparu gwasanaethau cwbl integredig. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddarau'r Pwyllgor ar y camau y mae wedi'u cymryd a'r amserlenni ar gyfer camau yn y dyfodol i gyflawni'r argymhelliad hwn ar ôl chwech, naw a deuddeg misv.**

#### **Ymateb: Derbynn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i yrru newid diwylliant yn ei flaen er mwyn darparu gwasanaethau cwbl integredig a darparu'r gwasanaeth cyhoeddus sydd ei angen i roi terfyn ar ddigartrefedd. Mae ein strategaeth ar gyfer atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn nodi'r dull system gyfan sydd ei angen ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â digartrefedd o bob math. Bydd gwaith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn helpu i lywio'r cynllun gweithredu a fydd yn sail i'r strategaeth ac y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad arni'n flynyddol. Mae'r grŵp gweithredu wedi bod yn edrych ar y gweithlu a'r diwylliant fel rhan o'i gylch gwaith, ac rwy'n rhagweld y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn ei adroddiad nesaf.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod newid diwylliant yn cymryd amser, ac na all ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru gyflawni hyn ar ei phen ei hun. Diben creu'r Grant Cymorth Tai yw helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r 5 Ffordd o Weithio; yn arbennig, integreiddio a chydweithio. Mae'r canllawiau newydd, sydd wedi'u datblygu drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, yn amlinellu rôl strategol glir i awdurdodau, gyda'r hyblygrwydd a'r rhyddid i arloesi a dwyn gwasanaethau ynghyd er mwyn osgoi dyblygu, ac er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. Mae'r fframwaith ariannu newydd yn cynnwys dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol a, thrwy grwpiau cydweithredol rhanbarthol, strwythur i weithio ar draws swyddogaethau cyhoeddus megis lechyd a Chyfiawnder Troseddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gweithredu mewn modd cydgysylltiedig a'u bod yn cynnig ymateb symlach i anghenion defnyddwyr.

Wrth gynnig mwy o ryddid i awdurdodau rydym yn eu herio i gamu'n llawnach i'r gofod sydd yn aml, yn y gorffennol, wedi ei feddiannu gan gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cydnabod eu dealltwriaeth o anghenion lleol a'r mandad democrataidd lleol sydd ganddynt. Felly, y newid diwylliannol a geisiwn yn arweiniad strategol mwy aeddfed gan awdurdodau ar gyfer y gwasanaethau integredig y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio atynt yn ei adroddiad.

Wrth gwrs, bydd angen meithrin y newid diwylliannol hwn drwy ymgysylltu'n barhaus a thrwy rannu dysgu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi hyn drwy weithredu'r fframwaith grant newydd a thrwy fforymau fel y Rhwydwaith Cymorth Tai, sy'n dwyn ynghyd arweinwyr awdurdodau lleol ym maes digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn rhannu arferion da a chefnogi gwelliant parhaus.

Rhoi'r Grant Cymorth Tai ar waith fydd y prif fecanwaith a fydd yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd wrth i'r grant a'i ganllawiau ategol gael eu gweithredu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai adrodd ar gynnydd o ran gweithredu'r Grant Cymorth Tai ddisgyn y tu allan i'r cyfnodau adrodd awgrymedig.

**Goblygiadau ariannol – Dim.**

## **Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyfforddiant sydd ar gael i bawb sy'n cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd; yn nodi unrhyw fylchau penodol ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant i sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd ddigon o ddealltwriaeth a sgiliau i gefnogi'r rheini sydd ag anhwylderau sy'n**

## **cydddigwydd. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried effeithiolrwydd hyfforddiant seiciatreg arbenigol.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae ein Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi nodi datblygu'r gweithlu fel cam gweithredu ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, gan gynnwys yr angen i ystyried hyfforddiant ar y cyd â meysydd gwasanaeth perthnasol eraill. Mae Gweithgor Llywodraeth Cymru ar gyfer Edrych yn Ddwfn ar Gyd-ddigwydd ym maes Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Coleg Seiciatreg Brenhinol, yn ystyried a oes angen hyfforddiant pellach, a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn fel rhan o adroddiad cynnydd y grŵp. Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Trin Pobl â Phroblem Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Cynllunio Ardal archwiliad hyfforddiant staff i nodi bylchau mewn gwasanaethau lle'r oedd angen penodol am ddysgu a datblygu. O hyn, datblygwyd hyfforddiant a chefnogaeth i gynorthwyo a diwallu anghenion pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd.

Mae'r cwricwlwm wedi'i rannu'n bedair rhaglen astudio sydd wedi'u hanelu at wahanol lefelau proffesiynol:

- Lefel 1 - Ymwybyddiaeth (ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn sectorau cysylltiedig, neu wirfoddolwyr)
- Lefel 2 - Gofal Sylfaenol (Staff Mynediad Agored ac Ymgysylltu, Cymunedau Adfer, Meddygon Teulu, Canolfannau Cyswllt Cyntaf)
- Lefel 3 - Gofal Eilaidd (ar gyfer y rhai sy'n cynnig Ymyriadau a Gofal Strwythuredig)
- Lefel 4 - Uwch Glinigwyr / Clinigwyr â Chyfrifoldeb Strategol, Comisiynwyr, Strategwyr a Swyddogion Gweithredol).

Mae achrediad Agored Cymru ar gael ar gyfer pob un o'r unedau hyn a bydd yr hyfforddiant yn cael ei adolygu'n fuan.

Yng nghyd-destun ehangach atal digartrefedd, un o'r egwyddorion polisi allweddol sy'n sail i'n dull gweithredu yw y dylai pob gwasanaeth wneud yr unigolyn yn ganolog, ac y dylai'r gwasanaethau hynny weithio gyda'i gilydd mewn modd hyddysg ym maes trawma. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni rhaglen hyfforddi 'PATH' (sy'n sefyll am "*Prevention. ACEs. Trauma Informed. Homelessness*"). Datblygwyd yr hyfforddiant hwn ynghyd â seicolegwyr yn gweithio gyda Chymorth Cymru i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar wybodaeth seicolegol. Gweithiodd Cymorth Cymru gyda'r ganolfan cymorth ACE a

Rhwydwaith Cymorth Tai'r Awdurdod Lleol i gyflwyno'r rhaglen i sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n profi digartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n cysgu ar y stryd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o gyflwyno'r hyfforddiant hwn ymhellach.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd hefyd yn ystyried anghenion ehangach y gweithlu fel rhan o'i gylch gwaith a rhagwelaf y caiff hyn ei adlewyrchu yn ei adroddiad nesaf, a fydd wedyn yn llywio ein cynllun gweithredu blynyddol.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff y costau eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

### **Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru naill ai'n cynnal neu'n comisiynu adolygiad brys i arferion a chanllawiau comisiynu i ymchwilio i'r pryderon a fynegwyd, gan edrych yn benodol ar p'un a yw dulliau rheoli perfformiad gwell, canlyniadau a rennir; cyllidebau cyfun; comisiynu mwy hirdymor a mynd i'r afael â gwrthdaro posibl o ran buddiannau yn helpu i gefnogi gwasanaethau integredig gwell ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd ac sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd. Dylai hefyd ystyried effaith rhwystrau i gyfuno cyllid statudol ac anstatudol. Er y dylid canolbwyntio ar y gwasanaethau hyn, gellid cymhwyso'r canfyddiadau yn ehangach ar draws y sector.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae creu'r Grant Cymorth Tai eisoes wedi arwain at adolygu'r trefniadau cyllido a chomisiynu ar gyfer yr hyn a elwid gynt yn Grantiau Cefnogi Pobl ac Atal Digartrefedd. Datblygwyd y canllawiau newydd mewn modd cydgynhyrchiol, drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr, comisiynwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn gyfle i archwilio'r materion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ac i randdeiliaid lywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau newydd, sy'n ceisio mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn. Ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y canllawiau newydd yn hwyr yn 2019, gan roi cyfle pellach i randdeiliaid fynegi eu barn a chyfrannu at y canllawiau terfynol, a gaiff eu cyhoeddi'n fuan.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod gwerth gweithio ar y cyd ac mae wedi rhoi strwythurau ar waith i annog a galluogi cydweithio effeithiol. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn un strwythur sy'n darparu mecanwaith ar gyfer datblygu dulliau o weithio ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Maent yn fecanwaith i feithrin perthynas waith agos fel y gellir cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd, er mwyn gwneud y gorau o ddibenion tai, iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae dulliau cydweithredol yn cael eu datblygu hefyd ynghylch ariannu ym maes camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Cânt eu goruchwylio gan Fyrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol a Byrddau Cynllunio Ardal ym maes Camddefnyddio Sylweddau. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu £1.3m (£0.3m yn 2019/20, £1m 2020/21) yn benodol i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth sy'n ddigartref neu sydd angen tŷ. Mae'r cyllid yn gweithio'n agos gyda phrosiectau Tai yn Gyntaf a bydd yn helpu i wella mynediad ac integreiddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. I ddangos ymhellach ein hymagwedd gydgysylltiedig, rydym hefyd wedi sicrhau bod £100,000 ar gael o'r gyllideb Iechyd yn y flwyddyn ariannol hon (2019-20) i ariannu triniaeth breswyl yn benodol ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff y costau eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

### **Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i ddeall graddfa a maint y rhwystrau y mae pobl sy'n cysgu ar y stryd sydd ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd a chyflyrau niwro-amrywiol yn eu hwynebu o ran ceisio cael cymorth priodol i sicrhau llety parhaol a chymorth ar gyfer eu hanawsterau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae ymgysylltu â phobl sy'n cysgu ar y stryd i ganfod rhwystrau i wasanaethau wedi bod yn broses anodd yn hanesyddol. Fel rhan o'r gwerthusiad annibynnol trylwyr o brosiectau Tai yn Gyntaf yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio deall yn well yr union rwystrau sy'n wynebu defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhai hynny ag anhwylderau sy'n cyd-ddigwydd a chyflyrau niwro-amrywiol, a'r camau y gellir eu cymryd i'w goresgyn. Bydd casglu barn pobl sydd â phrofiadau byw yn rhan sylfaenol o'r ymchwil hwn.

Mae Byrddau Cynllunio Ardal hefyd yn gweithio'n agos â gwasanaethau allgymorth tai ar hyn o bryd ac mewn llawer o ardaloedd mae timau allgymorth ar y cyd yn cydweithio gan sicrhau bod cymorth ar gael i estyn allan ac ymgysylltu â phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Mae sicrhau bod gwasanaethau i'r rhai â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd yn hygyrch ac wedi'u hintegreiddio'n llawn yn flaenoriaeth allweddol, ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud rhagor o waith i ddeall y rhwystrau o ran y Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Trin Pobl â Phroblem sy'n Cyd-ddigwydd o ran Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, a sut y gellir eu goresgyn. Bydd ymgysylltu â

defnyddwyr gwasanaeth sydd â gwasanaethau profiadol yn rhan o ddatblygu gwasanaethau at y dyfodol, a rheiny'n wasanaethau sy'n diwallu anghenion unigolion sy'n agored i niwed yn well.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff y costau eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

### **Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynegi ei barn ar yr argymhellion yn adroddiad y Grŵp Hollbleidiol ar ADHD sy'n ymwneud â chyfrifoldebau datganoledig yn adran 1a ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol – sgrinio ar ôl gwahardd o'r ysgol am yr ail dro (dros dro neu fel arall); adran 2 ar gadw at ganllawiau NICE ar gyfer ADHD yn y system carchardai; ac adran 3 ar sgrinio ar gyfer ADHD.**

▪ **Mae angen i wasanaethau fod yn ymatebol a chanolbwyntio ar anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Dylent gael eu cynllunio i ddiwallu eu hanghenion, yn hytrach na gweddu'r gefnogaeth i ddyluniad y gwasanaeth.**

▪ **I'r rhai sydd angen y gefnogaeth a gynigir gan Tai yn Gyntaf, mae angen inni sicrhau bod digon o lety addas ar gael yn y lleoliad cywir. Mae cysyniad Tai yn Gyntaf yn seiliedig ar sicrhau bod y llety yn gartref hirdymor i'r unigolyn, ac nid ar symud yr unigolyn ymlaen unwaith y bydd ei anghenion cymorth yn lleihau. Mae hyn yn golygu sicrhau bod digon o lety addas y gellir eu defnyddio ar gyfer y model Tai yn Gyntaf.**

▪ **Mae angen cynyddu capasiti cyfleusterau dadwenwyno preswyl a chymunedol. Clywsom mai cyfleusterau dadwenwyno cymunedol yw'r ateb mwyaf priodol i lawer, ond i rai cyfleusterau dadwenwyno preswyl yw'r ateb, ac nid oes digon o gapasiti cyfredol yng Nghymru i ddiwallu'r anghenion am gyfleusterau dadwenwyno Haen 4.**

### **Ymateb: Derbynn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi â diddordeb waith y Grŵp Seneddol Hollbleidiol mewn perthynas ag ADHD. Rydym yn cydnabod bod pobl yn cael problemau mwy cymhleth, gyda llawer ohonynt yn effeithio ar eu gallu i gynnal triniaeth a gwella, a bod angen i wasanaethau fod yn ymatebol i anghenion gwahanol unigolion.

Fel y nodir yn ein strategaeth ar gyfer atal a rhoi terfyn ar ddigartrefedd, un o'r egwyddorion polisi allweddol yw bod gwasanaethau'n mabwysiadu dull gweithredu ar gyfer yr unigolyn cyfan, yn seiliedig ar gryfderau ac ar ymarfer sy'n hyddysg o ran trawma. I gefnogi hyn, rydym yn cryfhau ein gwaith amlasiantaeth a'n cynllunio gofal

i sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu diwallu. Mae ein Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau yn cynnwys cam gweithredu penodol i weithio gyda phrosiectau Tai yn Gyntaf i gefnogi'r nod hwn.

Cytunwn yn llwyr â chasgliad y Pwyllgor bod Tai yn Gyntaf yn seiliedig ar y ffaith bod llety yn gartref hirdymor i unigolyn, ac na fydd yn cael ei symud ymlaen unwaith y mae ei angen am gymorth yn lleihau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i gynyddu'r cyflenwad o lety addas i fodloni'r angen o ran Tai yn Gyntaf ac, yn fwy eang, ein cynnig i symud i ddull o ddod o hyd i gartrefi newydd yn gyflym. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo i adeiladu mwy o dai cymdeithasol ar raddfa fawr ac yn gyflym, ac rydym yn lansio cynllun newydd arloesol i gynyddu'r cyflenwad o lety addas yn y sector rhentu preifat.

Mae adsefydlu preswyl a dadwenwyno cleifion mewn ysbyty yn chwarae rhan bwysig wrth helpu defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau eu hadferiad hirdymor, gan gynnwys adsefydlu a dadwenwyno yn y gymuned, sy'n chwarae rhan yr un mor bwysig.

Ymdrinnir â'r cyfeiriad at ailsefydlu cymunedol a phreswyl yn Argymhelliad 9 isod.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff y costau eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

## **Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o gapasiti a chyllid ar gael ar gyfer cyfleusterau dadwenwyno preswyl a chymunedol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pawb sydd angen y math hwn o gyfleuster yn gallu cael gafael arno mewn modd amserol**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae adsefydlu preswyl a dadwenwyno cleifion mewn ysbyty yn chwarae rhan bwysig wrth helpu defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau eu hadferiad hirdymor, gan gynnwys adsefydlu a dadwenwyno yn y gymuned, sy'n chwarae rhan yr un mor bwysig.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath ar gael ac felly'n dyrannu cyllid blynyddol o £1m o'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i Fyrddau Cynllunio Ardal ar gyfer darparu gwasanaethau Haen 4. Mae hyn ar ben y £25,000,000 a ddarperir i Fyrddau Cynllunio Ardal i gomisiynu a darparu amrywiaeth o wasanaethau ym maes camddefnyddio sylweddau yn eu hardaloedd. Mater i Fyrddau Cynllunio Ardal, yn unol ag arweiniad clinigol a chyda mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yw penderfynu ar yr ymyriad mwyaf priodol wrth ddefnyddio nifer o wasanaethau o

Haen 1 i Haen 4, gan sicrhau bod hygyrchedd ar bob lefel yn addas ac wedi'i deilwra ar gyfer unigolion yn seiliedig ar eu hasesiad o anghenion y boblogaeth.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn tendro am gontract ar gyfer Fframwaith Adsefydlu Preswyl Camddefnyddio Sylweddau Cymru Gyfan a fydd yn darparu rhestr o ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu a dadwenwyno preswyl cymeradwy. Yn ogystal, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran asesiadau gofal cymdeithasol a chyllid ar gyfer adsefydlu preswyl, cyn cyflwyno fframwaith newydd, ac o ran sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei ddarparu, nid yn unig o wasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi'u comisiynu, ond o ffynonellau ehangach hefyd.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Mewn Carchardai yn nodi blaenoriaethau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd, i wella iechyd a lles pobl sydd yn y carchar. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Fframwaith Triniaethau ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau newydd ar gyfer carchardai (Blaenoriaeth 3 yn y cytundeb partneriaeth ar gyfer Iechyd Mewn Carchardai) a darparu safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai (Blaenoriaeth 2 yn y cytundeb partneriaeth ar gyfer Iechyd Mewn Carchardai). Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd ffocws penodol ar wella trosglwyddo gofal ar ôl rhyddhau.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod £100,000 ar gael yn y flwyddyn ariannol hon (2019-20) yn benodol i ariannu triniaeth breswyl ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff y costau eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.